CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Wener y 5ed o Fedi 2025 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Rhys Parry, James Brunton, William Rees, Aled Rees, Ken Griffiths, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cyng Rhys Parry.
   Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Meirion Roberts.

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg o Orffennaf 2025 ar gynnig Cyng William Rees a'i eilio gan Cyng James Brunton.

4. **Materion yn codi.**
   a) **Materion Priffyrdd –** ynglyn a dwr o flaen Ty Alys, roedd Cyng William Rees wedi cael gair gyda Sion Wilkes, ac roedd prawf nad oedd newid y gwteri wedi helpu y sefyllfa. Byddai yn mynd yn nol ato i ddatrys hyn, a chael cynlluniau i ail-wynebu y ffordd.
   b) **Mynwent yr Eglwys** – roedd llythyr i law gan yr Eglwys yng Nghymru dyddiedig 30 Gorffennaf ynglyn a chymryd trosodd mynwent yr Egwlys gan y Cyngor Cymuned. Nodwyd nad oedd y Cyngor yn barod i hyn eto, ond yn hytrach yn ystyried hyn. Roedd rhaid gofyn a fyddai yr Eglwys yn talu yr holl gostau cyfreithiol, hefyd yn rhoi cymorth ar gyfer cadw y lle am y 10 mlynedd cyntaf. Byddai rhaid i'r Cyngor Cymuned gael cyngor cyn mynd ymlaen, ac awgrymwyd cysylltu gyda Bryn Hughes o Gyngor Gwynedd, a threfnu cyfarfod safle. Byddai'r Clerc yn cychwyn gohebiaeth gyda Alex Glanville o'r Eglwys, a gohiriwyd unrhyw benderfyniad ar hyn.
   c) **Menter y Glan** – CCTV – adroddwyd am amcangyfrif arall i law gan Cyng Meirion Roberts am ddau gamera am gyfanswm o £3888.00. Gan fod cymaint o gamerau yn y Glan, roedd yn awgrymu bod y cwmni yma yn neud y gwaith recordio i gyd, ac bod y Galn yn cytuno i gadw yr offer a talu am y trydan ar gyfer eu defnydd. Gwelwyd fod rhaid cael 3 amcangyfrif o dan reolau ariannol y Cyngor Cymuned, a byddai y Clerc yn dychwelyd at Meirion ynglyn a hyn. (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng James Brunton a Rhys Parry pan drafodwyd hyn.)
   d) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - cyfeiriwyd at yr holl ohebiaeth oedd wedi ei ddanfon i'r Cynghorwyr ynglyn a'r gronfa yma o Gyngor Gwynedd. Adroddwyd am y gwaith enfawr oedd wedi ei wneud gan Cyng Meirion Roberts gyda hyn, a diolchwyd yn fawr iawn iddo. Roedd y Clerc mewn cyswllt gyda Mrs Nia Wyn Thomas-Evans (Prifathrawes Ysgol Pennal) ynglyn a'r angen meinciau/byrddau picnic, ac roedd y cyfan mewn llaw.

5. **Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw faterion i law.

6.**Materion Cyllid**

a) Adroddwyd am ohebiaeth gyda'r Archwilydd Allanol ynglyn a'r archwiliad eleni. Atgoffwyd pawb fod hwn yn archwiliad llawn, ac roedd y Clerc wedi ymateb i'r holl ymholiadau, ac roeddent wedi derbyn fod y cyfan bellach yn gwbwl dderbyniol.

b) Nodwyd balansau y cyfrifon, (5.09.25), sef Cyfri Cyfredol £26,421.49, a Cyfri Cadw £2688.98. Cadarnhwyd fod ail ran y praesept i law, sef £9000.

c) Cytunwyd ar gynnig Cyng James Brunton a'i eilio gan Cyng Aled Rees i dalu yr anfonebau i law;

- Archwilio cyfrifon 2024-25 gan Gyngor Gwynedd - £402
- Cydnabyddiaeth ail chwarter y Clerc £537.48 a HMRC £134.40.

d) Ceisiadau am arian – ar gynnig Cyng James Brunton a'i eilio gan Cyng Ken Griffiths, cytunwyd i'r unig gais i law ;

- Papur Bro Dail Dysynni – cytunwyd cyfrannu £125.

**7. . Gohebiaeth**

a) Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru a oedd i law, a byddai'r Clerc yn eu dosbarthu, a trefnu yr hyfforddiant yn ol y galw.

b) Cyngor Tref Aberdyfi – Nodwyd e-bost y Clerc Sandy Andrews ynglyn a Chynllun Trafnidiaeth cymunedol gwirfoddol, a'r bwriad i greu cynllun peilot yn ardal Tywyn a fyddai yn cynnwys Pennal. Byddai Cyng Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) yn mynychu cyfarfod yn Byw'n Iach Bro Dysynni Dydd Llun 8fed Medi am 10yb.

c) Parc Cenedlaethol Eryri – nodwyd manylion Gwyl Fach Eryri yn Dolgellau ar y 27ain Medi, ac adroddwyd y cynnwys.

13.**Unrhyw fater arall.**

- Ystyriwyd yr awgrym I gael grwp 'WhatsApp' i'r Cynghorwyr I gael cyfathrebu yn fwy cyflym. Gwelwyd byddai rhaid trafod hyn eto.
- Roedd y broblem efo goleuadau Tower Road yn dal heb ei ddatrys.
- Roedd dyna nifer o manholes angen sylw rhwng Pennal a Machynlleth.
- Adroddodd Cyng Aled Rees fod archwilio y Difibs yn y ddau safle gan y Cyngor mewn llaw ganddo, i sicrhau fod y pads a'r batteries yn iawn. Diolchwyd i Aled am ei waith efo hyn.
- Roedd un o drigolion Cwrt yn defnyddio yr hen ciosg yno (sydd ym mherchnogaeth y Cyngor Cymuned) i werthu wyau – lle roedd y Difibs yn cael eu cadw. Roedd angen gofyn yn garedig am beidio gwneud hyn.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; Nos Wener y 7fed Tachwedd yn y Ganolfan am 7.30yh.**